ADRODDIAD BLYNYDDOL 2025-2026

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

# Y PANEL SICRHAU ANSAWDD

Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgaredd y Panel Sicrhau Ansawdd rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026. Mae’n dwyn ynghyd ddata meintiol, canfyddiadau allweddol, a mewnwelediadau thematig ar draws y pedwar chwarter.



## YSTADEGAU 25-26

6 CYFARFODYDD A GYNHALIWYD

### Rhyw aelodau'r bwrdd:




### Nifer y ceisiadau a ystyriwyd:




### Pynciau a ystyrir:

- DEFNYDDIO GRYM
- TRIN GALWADAU CANOLFAN GYDATHREBU'R HEDDLU
- YMGYRCH SOTERIA – DIODDEFWYR TREISIO A THROSEDDAU RHYW DIFRIFOL X2
- STOPIO A CHWILIO – CERBYDAU
- GALWADAU FFÔN TROSEDDAU GWLEDIG

Darllenwch yr adroddiadau llawn ar ein gwefan: **Panel Sicrhau Ansawdd**

## CRYNODEB CYFFREDINOL O GANFYDDIADAU’R PANEL (2025-2026)

### Themâu cadarnhaol a nodwyd

**Ar draws yr holl ymarferion craffu yn ystod y flwyddyn, nododd y panel nifer o themâu cryf yn gyson wrth ddarparu gwasanaethau:**

**Proffesiynoldeb a chyfathrebu**

- **Roedd rhyngweithiadau staff â’r cyhoedd yn gyffredinol gwrtais, yn bwyllog ac yn broffesiynol, gan helpu i feithrin tawelwch meddwl a hyder.**
- **Dangosodd llawer o achosion sgiliau cyfathrebu clir ac effeithiol, yn enwedig wrth egluro digwyddiadau a chasglu gwybodaeth.**

# Y PANEL SICRHAU ANSAWDD

**Casglu gwybodaeth yn effeithiol**

- **Roedd atebwyr galwadau a swyddogion yn aml yn defnyddio dulliau holi rhesymegol a strwythuredig, gan eu galluogi i ddeall digwyddiadau a chasglu manylion perthnasol.**
- **Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd tystiolaeth glir bod gwybodaeth allweddol wedi ei chofnodi'n gywir a bod camau gweithredu wedi eu cymryd.**

**Ymgysylltu'n gadarnhaol â dioddefwyr**

- **Gwelodd y panel enghreifftiau da o empathi a chydberthynas, yn enwedig mewn digwyddiadau mwy cymhleth neu sensitif.**
- **Mewn achosion mwy cymhleth, roedd staff yn gallu tawelu meddwl galwyr a dangos dealltwriaeth o'u pryderon.**

**Ymwybyddiaeth o ddiogelu**

- **Roedd cydnabyddiaeth glir ar draws llawer o achosion o bwysigrwydd nodi bregusrwydd ac anghenion diogelu, gan gyd-fynd â blaenoriaethau plismona ehangach.**

**Enghreifftiau o arfer gorau**

- **Tynnwyd sylw at sawl achos yn ystod y flwyddyn fel modelau o arfer rhagorol, yn enwedig lle:**
- **rheolwyd disgwyliadau yn glir**
- **rhoddwyd cyngor a thawelwch meddwl**
- **roedd strwythur y galwadau yn glir ac yn gyson**

## Meysydd i'w gwella

**Er bod y perfformiad cyffredinol yn gadarnhaol, nododd y panel nifer o themâu mynych i'w datblygu:**

**Eglurder a rheoli disgwyliadau**

- **Mewn rhai achosion, ni roddwyd gwybodaeth glir i'r galwyr am y camau nesaf, y canlyniadau na'r amserlenni.**
- **Mae hyn yn adlewyrchu her blismona ehangach, lle mae cyfathrebu effeithiol ar y cyswllt cyntaf yn hanfodol i hyder y cyhoedd.**

**Cysondeb wrth nodi bregusrwydd**

- **Er bod bregusrwydd yn cael ei ystyried yn aml, nid oedd bob amser:**
  - **wedi ei nodi'n ddigon cynnar mewn rhyngweithiadau, neu**
  - **wedi ei gymhwyso i bob unigolyn perthnasol a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad**

**Trin galwadau a dull cyfathrebu**

- **Nid oedd cyfnodau o dawelwch yn ystod galwadau bob amser yn cael eu hesbonio, a allai arwain at ansicrwydd i alwy. Collwyd cyfleoedd i wneud y canlynol:**
  - **Defnyddio enwau galwyr yn gyson**
  - **Cynnal ymgysylltiad drwy gydol y rhyngweithio**
  - **Strwythur a llif rhyngweithiadau**

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2025-2026

# Y PANEL SICRHAU ANSAWDD

**Strwythur a llif rhyngweithiadau**

- Roedd diffyg strwythur clir a rhesymegol i rai rhyngweithiadau, yn enwedig yng nghyfnodau cynnar casglu gwybodaeth.
- Arweiniodd hyn weithiau at y canlynol:
  - Oedi wrth nodi manylion allweddol
  - Ymdrin â digwyddiadau yn llai effeithlon

**Cofnodi a chywirdeb gweinyddol**

- Mewn rhai meysydd craffu (e.e. ffurflenni, logiau neu gofnodion) nodwyd gwallau neu anghysondebau bach.
- Mae canfyddiadau tebyg mewn adroddiadau blaenorol yn dangos y gall newidiadau prosesau neu drawsnewidiadau system effeithio ar gadw cofnodion a defnyddio systemau, gan olygu bod angen goruchwyliaeth a hyfforddiant parhaus.

**Defnyddio pwerau a gwneud penderfyniadau**

- Mewn rhai achosion, cwestiynodd y panel y canlynol:
  - A oedd graddio'r digwyddiad yn briodol
  - A ellid wedi ystyried canlyniadau neu ymatebion eraill



**RYDYM YN RECRIWTIO AR GYFER AELODAU**

Ydych chi'n byw neu'n gweithio o fewn ardal Dyfed Powys?

Rydym yn chwilio am bobl dalentog, egniol i ymuno â ni!
Mae'r meini prawf ar gyfer ymgeiswyr addas a gwybodaeth bellach ar gael ar ein gwefan

Ebost OPCC@dyfed-powys.pollice.uk
Ffôn: 01267 226440
Wefan: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/